envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Croeso i'r pumed rhifyn o gylchlythyr Ymgyrch Lleihau Gwastraff yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (PSWMC) 2010/11. Mae'r rhifyn hwn yn dangos pa effaith y gall ailgylchu gwastraff bwyd ei chael ar ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, sut y mae help gan yr Ymgyrch wedi nodi arbedion sylweddol o ran costau, ac yn datgelu pa effaith y cafodd PSWMC ar leihau gwastraff.

Dyfodol Disglair ar gyfer Gwastraff Bwyd yn Ysgol Gynradd Oakfield.

Yn ddiweddar mae Ysgol Gynradd Oakfield yn Llaneirwg, Caerdydd wedi cyflwyno trefniadau ailgylchu gwastraff bwyd i'r ysgol, yn ogystal â'r cynllun ailgylchu sydd eisoes ar waith ar gyfer papur, cardiau, poteli a chynwysyddion plastig, caniau, tuniau a gwydr.

Yn flaenorol roedd gan Oakfield dri bin ar gyfer ei holl wastraff; gan gynhyrchu tua 55 tunnell o wastraff y flwyddyn - a oedd oll yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Bellach mae gan Oakfield bedwar bin ailgylchu, a pedwar bin newydd ar gyfer gwastraff bwyd. Mae'r biniau hyn yn casglu'r holl wastraff bwyd o'r ysgol a chânt eu gwacáu ddwywaith yr wythnos. Mae hyn oll yn golygu mai dim ond un bin sydd ei angen bellach ar gyfer gwastraff cyffredinol. Yn ogystal â chasglu gwastraff bwyd o'r ffreutur, bu staff y ffreutur yn gweithio'n agos ag athrawon a disgyblion i addysgu plant i roi eu sbarion bwyd i mewn i fin gwastraff bwyd.

Nid y disgyblion yn unig sy'n ailgylchu eu sbarion bwyd. Mae bin gwastraff bwyd yn ystafell yr athrawon a staff, gan sicrhau y caiff cymaint o wastraff bwyd â phosibl ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi.

"Mae'n gweithio'n dda ac mae'n hawdd iawn, y cyfan sydd angen yw addysgu pawb fel bod pawb yn gwybod beth sy'n mynd ble a pham. Byddem yn argymell hyn i unrhyw un"
(Staff y Ffreutur, Ysgol Gynradd Oakfield).
Mae hyn oll wedi helpu'r ysgol i ddargyfeirio tua 37 tunnell o safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth am gyflwyno ailgylchu gwastraff bwyd yn eich ysgol cysylltwch a'ch awdurdod lleol.

Cymerwch ran a lleisiwch eich barn…

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghanol y broses o ddatblygu y cynllun sectorol ar gyfer y sector gyhoeddus i gefnogi Tuag at Ddyfodol Diwastraff. I gefnogi datblygu y cynllun sectorol ar gyfer ymgynhgori bydd nifer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod prif bwyntiau ar gyfer y sector gyhoeddus.

Bydd y cyfarfodydd yng Nghaerdydd yn cynnwys:

8 Chwefror: Perfformiad, cyflwyno adroddiadau ar ffactorau a'u monitro

11 Chwefror: Gwastraff bwyd - y llwybr i arbed

15 Chwefror: Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus

18 Chwefror: Gwastraff Clinigol a Pheryglus

Bydd niferoedd y bobl a all fynychu'r cyfarfodydd yn cael ei rheoli'n llym, Os hoffech fynychu un o'r cyfarfodydd cysylltwch a ni.

envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

'Cwpan am oes' yw'r ffordd ymlaen

Mae'r cynllun 'cwpan am oes' yn engraifft dda os arbe gwastraff. Drwy ddarparu cwpanau y gellir eu hailddefnyddio i staff er mwyn lleihau maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi drwy ddefnyddio cwpanau untro.

Gellid cyflwyno'r cynllun 'cwpan am oes' yn eich ffreutur mewn ffordd syml. Mae'r canlynol yn awgrymiadau o ran sut i weithredu cynllun a rhai rheolau syml i gymell pobl i ddefnyddio'r cynllun:

- Rhowch un 'cwpan am oes' wedi'i frandio i staff
- Defnyddiwch gerdyn teyrngarol e.e. 6 defnydd yn cael diod am ddim
- Gostyngiad o 5c am ailddefnyddio cwpan
- Rhaid i staff dalu £5 os ydynt yn colli'r cwpan

Fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cynllun, gellid defnyddio posteri i'w hyrwyddo. Mae angen i'r rhain fod yn fachog, yn amlwg a thynnu sylw at y cynllun - gellid defnyddio sloganau megis *"Defnyddiwch eich cwpan*". Gallai'r posteri hefyd gynnwys lluniau o gyflogeion a fydd yn helpu i bersonoleiddio'r cynllun a'i roi ar ben y ffordd. Gellid sefydlu cystadlaethau neu dabl cynghrair yn dangos nifer y cwpanau a ddefnyddiwyd fel y gellid rhoi diodydd poeth am ddim fel ffordd o ddiolch am ddefnyddio'r cwpan a lleihau gwastraff.

PSWMC a Heddlu Dyfed Powys yn arbed tunelli

Drwy weithio gyda Heddlu Dyfed Powys (HDP) mae'r YLGSC wedi canfod arbedion posib o bron £25,000 trwy leihau gwastraff a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

Nodwyd nifer o gyfleoedd er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, yn cynnwys:

1. Cyflwyno system ailgylchu sych cymysg, gan gasglu papur, cardiau, poteli plastig a chaniau ar draws holl ranbarthau HDP

2. Sefydlu cynllun ailgylchu gwastraff bwyd - drwy weithio gydag awdurdodau lleol gellir casglu gwastraff bwyd ar gyfer ailgylchu.

.

Nodwyd cyfleoedd i ddargyfeirio cyfanswm o 80 tunnell o wastraff o safleoedd tirlenwi bob blwyddyn. Byddai hyn yn helpu Heddlu Dyfed Powys at gyflawni cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025 - sy'n gam mawr tuag at cyflawni'r targedau a bennwyd yn Strategaeth Wastraff newydd Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y gall eich sefydliad leihau gwastraff, ewch i'n gwefan.

YLGSC - Eich barn...

Yn ddiweddar fe ofynom i sefydliadau a oedd yn gyfarwydd â'r ymgyrch, ond nad oeddent wedi derbyn unrhyw arian grant, cymorth un-i-un na chymorth arbenigol, beth oedd YLGSC yn ei olygu iddyn nhw. Yn benodol, roedd gennym ddiddordeb mewn mesur i ba raddau y gellir priodoli gwelliannau a wnaed gan y sefydliadau hyn o ran rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau i'r ymgyrch. O'r 68 a holwyd, nododd 81% o sefydliadau eu bod wedi gwneud gwelliannau o ran rheoli gwastraff dros y ddwy flynedd diwethaf.

Roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys cyflwyno cynlluniau ailgylchu newydd, ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth a mentrau lleihau gwastraff.Nododd 70% o ymatebwyr mai PSWMC oedd yn rhannol, yn bennaf neu'n llwyr gyfrifol am y gwelliannau hyn. Gyda'n gilydd rydym wedi dargyfeirio 92.81 tunnell o wastraff o safleoedd tirlenwi oherwydd cynnydd mewn ailgylchu, a 355.22 tunnell arall drwy leihau gwastraff.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus, cysylltwch â ni yn public.sector@envirowise.gov.uk new ewch i'r wefan.